.Cyngor Cymuned Betws-y-Coed
Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar yr 12fed Fehefin 2023

Presennol– Anna Brown Cadeirydd, Ffiona Jones, Janet Charlton, Cyng Elisabeth Roberts , Caerwyn Roberts Clerc.

Ymddiheuriadau.Neil Pringle, Catherine Williams.

Datgan diddordeb - Cafwyd datganiad o ddiddordeb yn gofnod [2.7] gan Anna Brown, a gadawodd y cyfarfod tra bu'r mater yn cael ei drafod.

Ethol Cadeirydd ac Is Gadeirydd
Penderfynwyd ethol Ffiona Jones yn Gadeirydd am y flwyddyn olynol, a gohirio ethol Is gadeirydd hyd nes cyfarfod nesaf y Cyngor.

Ymddiswyddiad. Nodwyd ymddiswyddiad Mari E M Mathews o'r Cyngor Cymuned

Cofnodion. Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar yr 8fed Fai 2023

Materion yn codi

(1.] Yr Heddlu
Roedd SCHG yn bresennol a chafwyd yr adroddiad canlynol ;
[1] Amgylchiadau amheus. Modur wedi parcio gyferbyn a'r lodge ym Metws-y-Coed sydd yn wag, ac yn tynnu lluniau ayb.
[2] Modur wedi ei stopio ar yr A470 heb drwydded na thystysgrif insiwrans.
[3] Amgylchiadau Amheus. Modur wedi parcio ar fin ffordd yr A5, y gyrrwr yn anwybodol o ganlyniad alcohol. Y gyrrwr wedi ei arestio.
Dywedodd y Cyng Eilsabeth Roberts bod yr Orsaf Heddlu newydd wedi agor yn Llanrwst a'i bod wedi cymryd y cyfle i ofyn am bresenoldeb yr heddlu "Gan Bwyll" ar ffordd yr A5 ym Mhentre' Du a gyferbyn Gwesty'r Waterloo.
Bydd cyflymder 20 yr awr yn bodoli yn barhaol ar yr A5 o Bont y Mwynwyr i'r Cross Keys ar yr 17eg Fedi 2023.
Adolygiad cyflymder yn cael ei drefnu ar yr A5 ym Mhentre' Du

[1.1] Pont Droed/ Pont-y-Pair
Penderfynwyd ceisio dau amcan bris ar gyfer arweiniad, cyn trefnu astudiaeth dichonoldeb.
Nodwyd gair oddiwrth Mr Gareth Jones yn pryderu ynglŷn â chostau pont newydd.
Penderfynwyd gwahodd Mr Jones i gyfarfod i drafod y cynnig.

[1.2] Tai Fforddiadwy/ Cartrefi Conwy
Nodwyd bod y mater yn parhau.

[1.3] Materion Parcio Bro Gethin
Y clerc i gysylltu gyda Mari E M Mathews i geisio diweddariad i'r sefyllfa.

[1.4]Llystyfiant Pont-y-Pair
Deallwyd bod y Cyng Elisabeth Roberts yn parhau i ddilyn y mater ymlaen gyda Chyngor BS Conwy

[1.5] Dyn mewn Fan
Eglurodd y clerc er iddo anfon nodyn yn atgoffa  Edward Jones APCE ynglŷn â'r daflen gwaith. Nid oedd ateb wedi ei dderbyn.

[1.6] Clwb Peldroed Betws/ Codi Uchder y Ffens / Ystafelloedd Newid
Nodwyd y tri amcan bris ar gyfer cegin newydd  yn adeilad y clwb peldroed fel a ganlyn ;
[a] C Evans £6180.00. [b] Dylan Evans £6784.00 [c] Tŷ £6798.00.
Penderfynwyd trafod y mater ymhellach yn y cyfarfod nesaf.[

[1.7]Safle We'r Cyngor
Nodwyd bod y mater yn parhau.

[1.8] Mynwent Erw Hedd/Trefniadau Claddu
Dywedodd y clerc ei fod yn disgwyl gair pellach gan Gyngor BS Conwy.

[1.9] Gwelliannau Glan yr Afon Pont-y-Pair
Eglurodd y clerc bod Haf Jones Cyngor BS Conwy yn trefnu i'r gwaith gael ei gwblhau.

[2] Archwiliad Asbesto, Neuadd Goffa/Rhaeadr Ewynnol
Nodwyd cost £850.00 ar gyfer archwiliad. Y clerc i drefnu gyda Chyngor BS Conwy.

[2.1] Byrddau'n Cysgodi Lleoliad Gwag wrth Westy'r Pont-y-Pair.
Nodwyd yn siomedig nad oedd Ultimate Outdoors yn ymateb i e-bost a galwadau ffôn ynglŷn â chyflwr y byrddau

[2.2]  Teithio Llesol
Nodwyd bod Andy Wilkinson Cyngor BS Conwy yn trefnu cyfle  i'r cyhoedd alw heibio yn y neuadd cyn diwedd Mehefin.

[2.3] Hanging Pizzeria Ffordd yr Orsaf
Dywedodd y Cyng Elisabeth Roberts ei bod yn disgwyl gair oddiwrth APCE.

Y brif Agenda

[2.4] Aelodau Cyfethol
Yn dilyn ballot fe ddewiswyd Bedwyr ap Gwyn, 7 Bro Gethin, Pentre' Du a Chris Jones, Mairlys, Ffordd Caergybi yn aelodau cyfethol o'r Cyngor Cymuned.

[2.5**]** Materion Cynllunio
Gosod Ffenestri newydd i'r llawr cyntaf. Siop Rohan, Ffordd Caergybi.
Penderfynwyd nad oedd gwrthwynebiad i'r cais uchod.

[2.6]Materion Ariannol
[a] Cymeradwywyd y taliadau a'r derbyniadau a amlinellwyd gan y clerc i ddiwedd Mai 2023.
[b] Eglurodd y clerc bod y nifer yn ymweld ar Rhaeadr Ewynnol  wedi gostwng ychydig yn gymharol i gyfnod  mis Mai 2022.

[2.7] Swyddog Rheoli Prosiect
Penderfynwyd trefnu cyfweliad ar gyfer 21ain Fehefin. Y clerc i gysylltu gyda'r ymgeisydd.

[2.8] Adolygiad I gostau Llogi'r Neuadd
Penderfynwyd gadael costau llogi heb ei newid.

[2.9] APCE Adroddiad Adolygiad Cynllun Datblygu Lleol Eryri
Y clerc i geisio crynodeb o'r adroddiad

[3] Goleuadau Nadolig
Penderfynwyd creu Is bwyllgor i drafod cynigion ar gyfer goleuadau Nadolig.

[3.1] Cronfa Gymunedol Eryri
Penderfynwyd gwneud cais am grant ar gyfer safle cynnal beics a chyfleusterau cyflenwad trydan beics a dŵr glan. Penderfynwyd talu cost flaenorol o £600.00ar gyfer dyluniad.

[3.2] Bwrdd Snwcer
Deallwyd bod y bwrdd snwcer angen sylw, penderfynwyd trefnu cwsh newydd ayb, y gost yn debygol o fod yn £475.00

[3.3]Cyflenwad dwr Rhaeadr Ewynnol
[a ]Dywedodd y clerc o ganlyniad y tywydd sych nad oedd cyflenwad dwr o'r afon. Y clerc i wneud ymholiad gyda Dŵr Cymru ynglŷn â chyflenwad newydd.
[b] Penodiad Tymhorol Rhaeadr Ewynnol
[b] Nodwyd bod Mr Mark Hickson, 2 bron Derw, Dolwyddelan wedi ei benodi i'r swydd uchod.

[3.4] Cilfannau Ffyrdd y Goedwig
Eglurodd y Cyng Elisabeth Roberts bod cyfarfod yn cael ei drefnu gyda Chyfoeth Naturiol Cymru cyn diwedd y mis I drafod y mater.

Cadeirydd ____________________________